Rhif.3: WG28243

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru

## Bil Drafft

## Crynodeb Esboniadol

Llywodraeth Cymru
Mawrth 2016

ISBN: 978-1-4734-6126-0

# Bil Drafft Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru: Cyflwyniad a Chrynodeb

Ym Mhapur Gorchymyn 9020 Llywodraeth y DU, 'Pwerau at Bwrpas' a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, gosododd Ysgrifennydd Gwladol Cymru gynigion ar gyfer datganoli yng Nghymru. Ei fwriad oedd gwneud setliad Cymru'n fwy clir, ac yn fwy sefydlog a hir ei barhad. Gosododd ei gynigion ar ffurf ddeddfwriaethol yn y Bil Cymru drafft a gyhoeddwyd ar gyfer craffu cyn y broses ddeddfu ym mis Hydref 2015.

Dros y misoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn dadansoddi Bil drafft yr Ysgrifennydd Gwladol yn fanwl, gyda'r nod o'i wella er mwyn cyflawni ei amcanion.

Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu nifer o lythyron at yr Ysgrifennydd Gwladol, ac mae swyddogion wedi cael trafodaethau manwl gyda Swyddfa Cymru ac adrannau eraill Llywodraeth y DU. Eglurwyd ein safbwynt ymhellach mewn tystiolaeth ysgrifenedig wrth i Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol (CLAC) a Phwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU graffu ar y Bil cyn y broses ddeddfu, a ddilynwyd gan dystiolaeth ategol ar fater Awdurdodaeth Cymru. Cyhoeddwyd y rheiny ym mis Tachwedd 2015.

Pwrpas y gwaith hwn oedd ceisio gwella cynigion Llywodraeth y DU er mwyn iddynt ddarparu setliad sefydlog a hir ei barhad, sy'n grymuso deddfwrfa Cymru'n briodol yn unol â mandad refferendwm 2011.

Yn ystod y broses hon rydym wedi bod yn ymdrechu i wella’r Bil drafft a oedd yn ceisio creu setliad newydd ar y model cadw pwerau drwy ddiwygio'r model rhoi pwerau presennol. Roedd yr ymdrech yn ofer gan ei fod yn parhau â’r sefyllfa o ddatganoli gweithredol a etifeddwyd. Mae'n glir i ni bellach bod angen ailfeddwl yn sylfaenol os ydym am greu setliad cydlynol a hir ei barhad i Gymru. Nid yw'n ddigon diwygio'r ddeddfwriaeth gynharach yn unig.

Rydym o'r farn bod angen ymagwedd wahanol: un sydd wedi'i seilio ar egwyddor gyfansoddiadol, sy'n rhoi effaith lawn i argymhellion Comisiwn Silk, ac sy'n cydgrynhoi'r statudau datganoli blaenorol yn unol ag argymhellion CLAC.

Felly rydym wedi datblygu Bil amgen sy'n gosod ein gweledigaeth ar gyfer setliad clir, sefydlog a hir ei barhad i Gymru. Fel y dogfennau cynharach a nodwyd uchod, rydym yn cyhoeddi'r drafft hwn fel cyfraniad cadarnhaol i ddatblygu datganoli yng Nghymru, ac i helpu'r Ysgrifennydd Gwladol a Senedd y DU wrth iddynt ystyried sut y dylid gwella'r setliad.

Nid yw pob agwedd o'n Bil amgen yn gyflawn, a bydd angen gwaith pellach ar ddarpariaethau manwl. Ond mae'n dangos beth sy'n bosibl os mai'r nod yw mynegi'r setliad mewn ffordd eglur a gan ddilyn egwyddor gyfansoddiadol o’r dechrau’n deg.

Mae'n dangos sut y dylai datganoli drwy fodel cadw pwerau yn ôl weithio i Gymru. Mae'r polisi sy'n cael effaith yn y Bil drafft wedi'i grynhoi yn y Blwch isod.

## Bil Drafft Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru: Crynodeb o'r darpariaethau

- ail-enwir y Cynulliad Cenedlaethol yn Senedd Cymru; bydd hi a Llywodraeth Cymru yn cael eu cadarnhau'n rhannau parhaol o drefniadau cyfansoddiadol y DU;

- bydd y trefniadau etholiadol ar gyfer Senedd Cymru yn aros yr un fath â'r trefniadau presennol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, ond bydd gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol llawn i wneud trefniadau newydd (er y byddai'n ofynnol cael cefnogaeth dwy ran o dair o holl aelodaeth y Senedd er mwyn newid y trefniadau);

- rhoddir pŵer deddfwriaethol i Senedd Cymru ar ffurf model cadw pwerau - mae'r materion a gedwir yn ôl yn cynnwys y Goron a'r cyfansoddiad, materion tramor, mewnfudo, polisi economaidd a chyllidol, budd-daliadau nawdd cymdeithasol, gwarchod cwsmeriaid, hawliau a dyletswyddau cyflogaeth, a materion eraill sy'n hanfodol i gyfanrwydd y DU, ei marchnad fewnol a dinasyddiaeth gyffredin ohoni;

- bydd cyfrifoldeb deddfwriaethol ar gyfer materion a gedwir yn ôl yn parhau i fod yn gyfrifoldeb Senedd y DU yn unig ond ni fydd Senedd y DU yn deddfu fel arfer ar faterion datganoledig heb gydsyniad Senedd Cymru;

- bydd Senedd Cymru yn gwneud ei deddfwriaeth yn ddwyieithog yn Saesneg ac yn Gymraeg, a bydd statws cyfartal i'r ddwy iaith;

- bydd pwerau mewn perthynas â'r system gyfiawnder (yr heddlu, llysoedd, carchardai, gweinyddu cyfiawnder, cyfraith trosedd a chyfraith teulu) yn "faterion gohiriedig";

- bydd materion gohiriedig yn cael eu datganoli o 1 Mawrth 2026 (neu unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir drwy gytundeb rhwng Senedd Cymru a Senedd y DU);

- ond bydd Senedd Cymru yn gallu deddfu ar faterion gohiriedig cyn hynny—
    - at ddibenion gorfodi darpariaethau nad ydynt wedi'u cadw yn ôl neu'n ohiriedig, neu fel arall er mwyn eu gwneud yn effeithiol,
    - er mwyn gwneud darpariaeth gysylltiedig neu ganlyniadol etc., neu
    - os nad yw Bil sy'n cynnwys darpariaethau mwy sylweddol sy'n ymwneud â materion gohiriedig wedi cael ei anghymeradwyo gan Senedd y DU.

- bydd holl swyddogaethau Gweinidogion y Goron (Llywodraeth y DU) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru yn trosglwyddo i Weinidogion Cymru, ar wahân i eithriadau (cyfyngedig) penodol y cytunir arnynt;

- bydd gan Weinidogion Cymru hefyd gyfrifoldebau gweithredol penodol ar faterion cyfyngedig sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru;

- rhennir awdurdodaeth gyfreithiol bresennol Cymru a Lloegr yn ddwy awdurdodaeth neilltuol, un ar gyfer pob gwlad - crëir cyfraith Cymru (a chyfraith Lloegr), gyda'r uwchlysoedd, y llysoedd teulu a'r llysoedd sirol wedi'u rhannu yn llysoedd ar wahân ar gyfer Cymru ac ar gyfer Lloegr yn eu tro (ond byddant yn cael eu gwasanaethu gan farnwriaeth a llysoedd ar y cyd);

- bydd datganoli treth incwm yn rhannol yn dod i rym drwy reoliadau, yn dilyn pleidlais pan fo o leiaf ddwy ran o dair o holl aelodaeth Senedd Cymru yn mynegi cefnogaeth;

- bydd toll teithwyr awyr a'r ardoll agregau yn drethi datganoledig (ynghyd â threth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi);

- sefydlir Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru;

- bydd Argraffwr y Frenhines ar gyfer Cymru, a fydd yn gyfrifol am gyhoeddi deddfwriaeth Gymreig.

## Egwyddorion

Wrth ddrafftio'r Bil amgen hwn, yr egwyddorion arweiniol oedd:

- **Sybsidiaredd:** dylai cyfrifoldeb deddfwriaethol a gweinidogol dros faterion yng Nghymru fod yn ddatganoledig oni bai bod rheswm da dros eu cadw ar lefel y DU neu lefel Cymru a Lloegr;
- **Eglurder:** mae'r drafft yn gosod y setliad datganoli mewn ffordd resymegol sy'n fwy hygyrch i'r lleygwr. Mae'n darparu'r eglurder a'r sicrwydd sydd ei angen i leihau'r risg o her gyfreithiol, ac yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol mewn un man yn unol ag argymhelliad CLAC;
- **Setliad hir ei barhad:** wrth ddarparu ar gyfer awdurdodaeth neilltuol i Gymru, mae'r drafft yn cydnabod yr ymwahanu yn y gyfraith sy'n ganlyniad naturiol i greu deddfwrfa Gymreig. Wrth ddarparu ar gyfer datganoli cyfiawnder yn y tymor hir, mae'r Bil yn galluogi setliad datganoli sefydlog, cydlynol, ymarferol a hir ei barhad yn unol â'r Alban a Gogledd Iwerddon.

## Materion a gedwir yn ôl

Mae diffinio'r materion a gedwir yn ôl ar sail egwyddor yn rhoi cyfres gydlynol o gyfrifoldebau i'r sefydliadau datganoledig, ar sail ein gweledigaeth ar gyfer Cymru o fewn y DU. Rydym yn cynnig rhestr o faterion i'w cadw yn ôl, sy'n cynnwys y materion sy'n hanfodol ar gyfer undod gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol y DU. Felly mae'r darpariaethau sy'n cefnogi marchnad fewnol y DU, neu degwch yr hawl i gael budd-daliadau nawdd cymdeithasol sy'n gyffredin i ddinasyddion y DU, yn faterion a gedwir yn ôl. Drwy ddilyn yr ymagwedd egwyddorol hon, mae nifer y materion a gedwir yn ôl yn cael ei gadw mor isel â phosib.

## Cyfiawnder troseddol a phlismona

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer newid y model datganoli ar unwaith o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau yn ôl, ac yn y tymor hirach ar gyfer datganoli'r heddlu, gweinyddiaeth gyfiawnder, cyfraith droseddol a chyfraith deuluol, pob un ohonynt yn 'faterion gohiriedig' nes y 'dyddiad trosglwyddo gohiriedig' sef 1 Mawrth 2026 (neu unrhyw ddyddiad hwyrach a gytunir).

Byddai datganoli yn 2026 yn caniatáu paratoi trefnus i sicrhau bod y cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo'n esmwyth. Bu Llywodraeth Cymru'n dadlau'r achos dros ddatganoli'r materion hyn yn y ffordd hon yn ein tystiolaeth i Gomisiwn Silk.

Cyn 2026, ni fydd y materion hyn yn cael eu datganoli. Yn ystod y cyfnod hwn fodd bynnag, fel sy'n wir gyda materion a gedwir yn ôl, bydd modd i Senedd Cymru wneud rhai darpariaethau sy'n cyffwrdd â materion gohiriedig, os yw gwneud hynny'n

gysylltiedig â chyfraith ddatganoledig neu'n briodol ar gyfer gwneud y gyfraith honno'n effeithiol neu ei gorfodi.

Byddai modd i Senedd Cymru hefyd gynnig deddfwriaeth yn y meysydd gohiriedig hyn sy'n mynd y tu hwnt i ddarpariaeth ategol yn unig. Mewn achos o'r fath, gallai Bil Senedd Cymru sy'n cael yr effaith honno ddod yn ddeddf ar yr amod nad yw Senedd y DU yn ei anghymeradwyo. Mewn geiriau eraill, byddai modd i Senedd y DU roi terfyn ar unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath yn ystod y cyfnod hwn.

## Awdurdodaeth Gyfreithiol Cymru

Mae'r bil drafft yn darparu ar gyfer creu awdurdodaeth gyfreithiol neilltuol i Gymru ar unwaith, gan wahanu cyfreithiau Cymru oddi wrth gyfreithiau Lloegr. Bydd hyn yn adlewyrchu realiti'r sefyllfa bresennol o gyfraith sy'n gynyddol ymwahanu yng Nghymru - sy'n ganlyniad naturiol i gael dwy ddeddfwrfa a dwy lywodraeth ar wahân yng Nghymru a Lloegr.

Dechreuodd Llywodraeth Cymru drafodaeth am awdurdodaeth Cymru yn 2011. Bryd hynny, daethom i'r casgliad y dylai'r awdurdodaeth ddatblygu'n naturiol dros gyfnod o amser. Ond mae'r gwaith manwl ar y model cadw pwerau wedi dangos yn glir bod creu model o'r fath o fewn awdurdodaeth gyfunol yn peryglu creu rhagor o gymhlethdod ac ansicrwydd. Felly fel y gwnaethom ddadlau yn ein tystiolaeth i CLAC a nodwyd uchod, rydym wedi dod i'r casgliad mai awdurdodaeth i Gymru yw'r ffordd gywir i symud ymlaen yn unol â'r egwyddorion a nodwyd uchod.

Mae sefydlu awdurdodaeth neilltuol i Gymru yn adlewyrchu realiti'r twf yn llyfr statud Cymru, ac ym marn rhanddeiliaid cyfreithiol ychydig iawn o newid fyddai'n ofynnol yng ngweithrediad ymarferol y llysoedd. Eto byddai'n rhoi'r gallu i Senedd Cymru ddeddfu, sy'n hanfodol ar gyfer corff â chyfrifoldebau deddfu sylfaenol.

## Cyfyngiadau ar bwerau Senedd Cymru

Mae'r Bil wedi'i ddrafftio gyda'r bwriad o greu sefydlogrwydd tymor hir yn setliad datganoli Cymru, wedi'i seilio ar egwyddor. Er mwyn cyflawni hyn, bu'n angenrheidiol ymestyn cymhwysedd mewn rhai meysydd a'i gyfyngu mewn eraill, ar sail yr egwyddorion a nodwyd uchod.

Felly mae'r Bil yn darparu ar gyfer rhai cyfyngiadau newydd ar bwerau Senedd Cymru - mewn tair ffordd.

- Yn gyntaf, mae creu awdurdodaeth neilltuol yn ymateb i'r ddadl bod diffyg democrataidd yng nghyfreithiau Cymru sy'n cael effaith yn Lloegr; bydd pwerau Senedd Cymru ond yn medru cael eu harfer mewn perthynas â Chymru. Felly, drwy sefydlu awdurdodaeth neilltuol i Gymru, mae'r Bil drafft yn cael gwared â'r gallu i gyfreithiau Cymru fod yn berthnasol mewn rhai agweddau yn Lloegr. Fel yn yr Alban, bydd newidiadau yng nghyfraith Lloegr

sy'n ganlyniadau i Ddeddfau Senedd Cymru a wnaed ar gyfer Cymru yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU drwy reoliadau.

- Yn ail, mewn meysydd fel hawliau a dyletswyddau sylfaenol yn y gyfraith cyflogaeth, yn gyson â'n tystiolaeth i Gomisiwn Silk, rydym yn derbyn bod rhywfaint o leihau pwerau'n angenrheidiol i sicrhau bod yr hawliau a'r dyletswyddau cyflogaeth sydd eu hangen fel sylfaen i farchnad lafur fewnol y DU yn cael eu cadw yn ôl yn glir ac yn rhesymegol.
- Yn drydydd, ni fydd modd i Senedd Cymru addasu gweithrediadau na chyfansoddiadau awdurdodau a gedwir yn ôl a restrwyd heb ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol, na diwygio'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl oni bai bod gwneud hynny'n angenrheidiol at ddiben datganoledig.

Mae hyn yn dangos ymagwedd resymol ac egwyddorol - gan dderbyn rhywfaint o gyfyngiad ar bwerau er lles eglurder, sefydlogrwydd a buddiannau strategol y DU.

## Casgliad

Mae'r Bil Llywodraeth Cymru hwn wedi deillio o'n hymdrechion i wella cynigion drafft Llywodraeth y DU. Yn ystod y broses hon, daeth yn amlwg bod nifer o'r problemau'n deillio o sylfeini'r statudau datganoli presennol. Felly rydym wedi dilyn dull gweithredu gwahanol, gyda'r nod o sicrhau setliad parhaol wedi'i seilio ar egwyddorion cyfansoddiadol.

Mae'r Bil yn cael ei gynnig fel cyfraniad cadarnhaol i'r drafodaeth ac yn ceisio rhannu canlyniad ein hystyriaeth galed o'r ffordd ymlaen ar gyfer datganoli yng Nghymru. Yn ogystal â chynnwys cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer newid y system, mae hefyd yn cydgrynhoi ac yn moderneiddio'r gyfraith bresennol ar gyfansoddiad Cymru fel bod modd dod o hyd i'r cyfan gyda'i gilydd. Am y rheswm hwn mae'n Fil hir, ond mae llawer ohono'n adlewyrchu'r gyfraith bresennol. Rydym o'r farn ei fod yn gosod gweledigaeth adeiladol o gyfansoddiad a fydd yn diwallu anghenion Cymru a'r DU yn y tymor hir.

# Bil Drafft Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru: Darpariaethau Manwl

## Cyffredinol

1. Mae'r Bil ar ei ffurf bresennol yn cynnwys 141 o gymalau a 14 o Atodlenni. Fel yr eglurwyd uchod, ni chyflwynir y drafft hwn fel un sy'n gyflawn; byddai peth gwaith ychwanegol yn angenrheidiol mewn perthynas â'r materion hynny (rhai technegol yn bennaf) fel diwygiadau a diddymiadau, a threfniadau trosiannol, cyn y byddai'r Bil yn barod i'w gyflwyno gerbron y Senedd. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y drafft eglurhaol hwn yn darparu'r man cychwyn priodol ar gyfer setliad hir ei barhad.

2. Mae darpariaethau'r Bil yn deillio o:

   - darpariaethau wedi'u hailddatgan o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") a Deddf Cymru 2014 ("Deddf 2014"), weithiau gyda diwygiadau drafftio sy'n addas i'r cyd-destun newydd;

   - darpariaethau wedi'u hailddatgan o rai Mesurau Cynulliad y mae Llywodraeth Cymru o'r farn eu bod yn briodol i'w cynnwys yn y Bil hwn;

   - darpariaethau a gymerir, weithiau gyda diwygiadau, o Fil yr Alban sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd; a

   - darpariaethau a gymerir, weithiau gyda diwygiadau, o Fil Cymru drafft yr Ysgrifennydd Gwladol (Hydref 2015).

3. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau newydd, gyda rhai o'r rhain yn adlewyrchu ceisiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol am bwerau ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol neu i Weinidogion Cymru; mae rhai eraill yn gwneud darpariaeth newydd ar gyfer y "pynciau gohiriedig" a'r awdurdodaeth gyfreithiol y cyfeiriwyd atynt yn gynharach.

4. Nid yw'r Bil felly yn ceisio ailddatgan y ddarpariaeth statudol bresennol yn unig mewn ffurf sydd wedi'i chydgrynhoi; yn hytrach, mae'n ymgorffori llawer o ddarpariaethau statudol presennol (yn Neddfau Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol) ac yn eu rhoi ochr yn ochr â darpariaeth sy'n cael ei hystyried gan y Senedd ar hyn o bryd, ynghyd â darpariaeth gwbl newydd a gynigir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu datganoli yn unol ag egwyddorion sybsidiaredd, eglurder a chydlyniant.

5. Nid yw'r Bil hwn yn un y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ei wneud ei hun, o ystyried ei bwerau presennol; ac ymddengys beth bynnag ei bod yn briodol yn gyfansoddiadol y dylai Deddf sy'n seiliedig ar y Bil hwn, sef y ddeddfwriaeth a fyddai'n sylfaen i lywodraethu Cymru o fewn y DU, gael ei gwneud naill ai gan Senedd y DU, neu o dan awdurdod a roddir yn benodol i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Senedd y DU. Mae'r Bil felly ar ffurf deddfwriaeth Seneddol

ddrafft, ac mae yn Saesneg yn unig (ond pe bai'r Senedd yn rhoi awdurdod i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu yn y termau hyn, byddai unrhyw Fil Cynulliad i'r perwyl hwn yn cael ei gyflwyno o anghenraid mewn ffurf ddwyieithog).

## Rhan 1: Y Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru

6. Mae Rhan 1 o'r Bil yn cadarnhau y bydd sefydliadau datganoledig Cymru (deddfwrfa a gweithrediaeth) yn parhau.

7. Mae cymal 1(1) yn ailenwi'r Cynulliad Cenedlaethol yn Senedd Cymru. Mae cymal 20 o Fil Cymru drafft yr Ysgrifennydd Gwladol, y mae ei sylwedd wedi'i ailddatgan yng nghymal 44 o'r Bil presennol, yn rhoi pŵer i'r Cynulliad (os yw'n dymuno, ac yn ddarostyngedig i'r gofyn am "uwch-fwyafrif") i newid ei enw statudol. At ddibenion y Bil presennol, a'n hawydd i greu statud ddatganoli gynhwysfawr hir ei pharhad i Gymru, rydym wedi defnyddio'r enw a ffefrir gan Lywodraeth Cymru sef "Senedd Cymru" neu'r "Welsh Parliament"; mae gweddill y Bil wedi'i ddrafftio yn unol â hynny.

8. Mae cymal 1(3) yn cadarnhau bod Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd yn "rhan barhaol" o drefniadau cyfansoddiadol y DU, ac mae cymal 1(4) (sy'n seiliedig ar welliannau i Fil yr Alban a gynigir ar gyfer eu trafod yn ddiweddarach yn Nhŷ'r Arglwyddi) yn darparu "clo dwbl" i roi effaith i'r nodwedd barhaol hon: ni chaniateir diddymu'r darpariaethau perthnasol sy'n cadarnhau parhauster ond os yw Senedd Cymru wedi cydsynio i hynny, ac yn dilyn cymeradwyaeth o'r diddymiad hwn gan bobl Cymru mewn refferendwm.

9. Mae cymal 2(1) yn cadarnhau y bydd Senedd Cymru yn gwneud deddfwriaeth ar gyfer Cymru ar ffurf Deddfau Cymreig. Fel sefydliad cwbl ddwyieithog (gweler cymal 23), bydd deddfwriaeth yn cael ei gwneud yn ddwyieithog, ac mae cymal 113 yn ailddatgan bod y testunau yn y ddwy iaith i gael eu trin fel pe bai statws cyfartal iddynt at bob diben.

10. Fodd bynnag, ni fydd gan Senedd Cymru gymhwysedd unigryw i ddeddfu ar gyfer Cymru; fel y mae cymal 2(3) yn nodi, mae Senedd y DU yn parhau i allu deddfu ar gyfer Cymru (ar bob mater). Mae cymal 2(4), gan dynnu ar ddarpariaeth ym Mil yr Alban sy'n darparu sylfaen statudol ar gyfer Confensiwn Sewel, yn egluro sut y mae cyfrifoldebau deddfwriaethol perthnasol y ddwy Senedd i gael eu harfer: er gwaethaf y cwmpas anghyfyngedig parhaus i'w chymhwysedd deddfwriaethol, ni fydd Senedd y DU "fel arfer" yn pasio Deddfau ynghylch materion datganoledig heb gydsyniad Senedd Cymru. Mae cymal 2(5) yn esbonio'r hyn sydd i'w ystyried fel "mater datganoledig" at y diben hwn; mae ein diffiniad ni, drwy ddarparu bod darpariaeth sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru hefyd i'w hystyried yn fater datganoledig, yn adlewyrchu'r arfer bresennol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a'r testun y cytunwyd arno yn y Canllawiau ar Ddatganoli a luniwyd er gwybodaeth i weision sifil yn y ddwy weinyddiaeth.

11. Yn olaf yn y Rhan hon, mae cymal 3 yn datgan y bydd awdurdodaeth gyfreithiol neilltuol yn cael ei chreu ar gyfer Cymru, y gwneir darpariaeth bellach mewn perthynas â hi yn Rhan 5 o'r Bil drafft.

# Rhan 2: Senedd Cymru

12. Mae Rhan 2 o'r Bil yn ymdrin â dwy set gyffredinol o faterion: aelodaeth o Senedd Cymru, gan gynnwys ei threfniadau etholiadol ac anghymhwyso person rhag bod yn aelod, a threfniadau a phwerau'r Senedd o ran ei llywodraethiant mewnol ei hun.

## Aelodaeth a Threfniadau Etholiadol

13. Ar hyn o bryd mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn defnyddio'r System Aelodau Ychwanegol yn ei etholiadau; mae darpariaeth ar ei chyfer wedi'i nodi yn fanwl yn Rhan 1 o Ddeddf 2006. Mae'r Bil hwn yn ailddatgan trefniadau'r System Aelodau Ychwanegol, ac yn rhoi pŵer, yn ddarostyngedig iddi fodloni'r gofyn am "uwch-fwyafrif", i Senedd Cymru fabwysiadu system etholiadol wahanol os yw'n dymuno gwneud hynny, mae'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2006 wedi'u hailddatgan yma mewn ffurf sydd ychydig yn wahanol. Mae cymalau 5-6 ac 8-13 o'r Bil hwn yn gwneud darpariaeth, sy'n deillio o Ddeddf 2006 (ynghylch cyfnodau swydd ar gyfer aelodau etholedig; amseriad etholiadau cyffredinol y Senedd bob pum mlynedd, ac etholiadau cyffredinol eithriadol; yr hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd, yn seiliedig ar yr etholfraint llywodraeth leol; a phwerau i wneud gorchmynion ar gyfer trefnu etholiadau), a fydd yn parhau i fod yn angenrheidiol pa bynnag system etholiadol sydd i'w defnyddio gan y Senedd.

14. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â gweithredu'r System Aelodau Ychwanegol wedi'u hailddatgan yn Atodlen 1 i'r Bil, sy'n cael ei chyflwyno gan gymal 4. Pe bai'r Senedd yn penderfynu mabwysiadu system etholiadol newydd, byddai Atodlen 1 yn cael ei diddymu a byddai Atodlen amnewid yn cael ei mewnosod, gan wneud y ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer y system newydd.

15. Yn olaf ynghylch etholiadau, mae cymal 14 yn cyflwyno Atodlen 3, sy'n gwneud darpariaeth bellach newydd, yn benodol ar gyfer rheoleiddio gwariant ar yr ymgyrch mewn etholiadau datganoledig, sy'n dod yn gyfrifoldeb newydd (fel y mae o dan Fil drafft Llywodraeth y DU) i Weinidogion Cymru.

16. Mae'r darpariaethau presennol ynghylch anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'u hailddatgan yn Atodlen 2 (a gyflwynir gan gymal 7) i'r Bil hwn, a bydd y rhain yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â Senedd Cymru hyd nes iddynt gael eu disodli. Pe bai Senedd Cymru yn penderfynu symud i drefniadau newydd mewn perthynas ag anghymhwyso (efallai yn unol â'r argymhellion a wnaed yn Adroddiad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad yn 2014), byddai gwneud hynny'n weddol syml, drwy ddiddymu'r Atodlen bresennol a mewnosod Atodlen 2 newydd yn y Bil.

## Tâl ar gyfer Aelodau

17. Mae Deddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud darpariaeth ar gyfer talu cyflogau i'w aelodau; caiff hefyd wneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau. (Mae adran 21 o'r Ddeddf honno hefyd yn pennu amgylchiadau pan fo terfynau ar gyflogau aelodau yn gymwys). Yn 2010 gwnaeth y Cynulliad Fesur Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n sefydlu Bwrdd Taliadau annibynnol i wneud penderfyniadau ar gyflogau a lwfansau sy'n daladwy i aelodau.

18. Mae darpariaethau Deddf 2006 mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u hailddatgan yn y Bil hwn (cymalau 15 i 17), ac achubwyd ar y cyfle i integreiddio'r darpariaethau a geir ym Mesur Taliadau 2010 yn y strwythur cyfan fel Atodlen 4 i'r Bil (a gyflwynir gan gymal 15), sy'n ailenwi'r Bwrdd yn Fwrdd Taliadau Senedd Cymru. Effaith cymalau 15 i 17 ac Atodlen 4 gyda'i gilydd felly yw darparu disgrifiad cynhwysfawr o'r trefniadau ar gyfer taliadau i aelodau'r Senedd.

## Llywodraethiant Mewnol y Senedd

19. Pan sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol yn 1999, gwnaeth Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ddarpariaeth fanwl ar gyfer ei Reolau Sefydlog a threfniadaeth ac aelodaeth ei Bwyllgorau (yn ogystal â darpariaeth ar gyfer cyfranogiad yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei drafodion). Mae rhai o'r amodau hyn wedi'u dileu gan Ddeddf 2006, ac mae'r Bil Cymru drafft yn parhau i symud yn yr un cyfeiriad, gyda'r nod o wneud Senedd Cymru yn sefydliad sy'n ei llywodraethu ei hun i raddau helaeth. Mae ein Bil amgen yn adlewyrchu'r dull hwn ac yn ei ddatblygu ymhellach.

20. Mae cymal 20 yn ailddatgan y gofyniad ar gyfer ethol y Llywydd, a chymal 21 ar gyfer penodi Clerc. Ond mae cymal 20 yn rhoi rhyddid ychwanegol i Senedd Cymru benodi cynifer o Ddirprwy Lywyddion ag a ganiateir gan Reolau Sefydlog, yn hytrach nag un Dirprwy Lywydd yn unig yn ôl y cyfyngiad yn adran 25 o Ddeddf 2006.

21. Mae darpariaeth yn parhau i gael ei gwneud, gan gymal 22, ar gyfer Comisiwn ("Comisiwn Senedd Cymru" erbyn hyn) er mwyn darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau y mae'r Senedd eu hangen at ei dibenion, ac mae Atodlen 5 i'r Bil (a gyflwynir gan gymal 22) yn gwneud darpariaeth bellach, yn seiliedig ar ddarpariaethau perthnasol yn Neddf 2006, ar gyfer gwaith y Comisiwn.

22. Bydd trafodion (dwyieithog: gweler cymal 23) y Senedd yn cael eu llywodraethu gan y Rheolau Sefydlog y mae'n eu mabwysiadu ar ei chyfer ei hun (gyda chefnogaeth dwy ran o dair o'r aelodau sy'n pleidleisio, gweler cymal 24(7)), ac mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer yng nghymal 24. Bydd llawer o waith pob dydd Senedd Cymru yn parhau i gael ei wneud, fel yn achos y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd, gan ei phwyllgorau, ac mae'r Bil (cymal 25) yn

cadarnhau pwerau'r Senedd i sefydlu'r rhain, ond mae'n caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r Senedd o ran penodi aelodau i bwyllgorau. Mae'r gofyniad yn adran 29 o Ddeddf 2006 y dylai aelodaeth pob pwyllgor adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol cyffredinol yn y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei ddisodli gan ofyniad llai beichus y bydd rhaid i aelodaeth pwyllgorau'r Senedd yn ei chrynswth roi ystyriaeth i gydbwysedd y pleidiau gwleidyddol yn y Senedd (gweler cymal 25(4)). Bydd Senedd Cymru yn penderfynu pa bwyllgorau y mae'n dymuno eu sefydlu, ond bydd yn ofynnol o hyd cael Pwyllgor Archwilio (cymal 26), a fydd yn cael ei gadeirio gan aelod o wrthblaid, ac na chaniateir i aelodau Llywodraeth Cymru fod yn rhan o'i aelodaeth. Mae pwerau pwyllgorau i wysio tystion ac i alw am ddogfennau wedi'u hailddatgan yng nghymalau 29 i 32.

23. O dan y pennawd "Uniondeb", mae cymal 27 o'r Bil yn ailddatgan y gofyniad ar gyfer cofrestr gyhoeddus o fuddiannau'r aelodau, ac ar gyfer datganiad o fuddiannau perthnasol cyn i unrhyw aelod gymryd rhan yn nhrafodion cyfarfod llawn neu drafodion un o bwyllgorau'r Senedd. Yn 2009, gwnaeth y Cynulliad Cenedlaethol Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a phrif nod swydd y Comisiynydd yw "hybu, annog a diogelu safonau ymddygiad uchel yn swydd gyhoeddus" Aelod Cynulliad. Mae darpariaethau'r Mesur hwnnw, gyda mân ddiwygiadau i'r testun, wedi'u hymgorffori yn y Bil hwn fel Atodlen 6 (a gyflwynir gan gymal 28), fel bod cymalau 27, 28 ac Atodlen 6 gyda'i gilydd yn darparu datganiad cynhwysfawr o'r camau a gymerir i sicrhau'r safonau ymddygiad uchaf yn Senedd Cymru.

24. Yn olaf yn y Rhan hon, mae cymalau 33 i 35 yn ailddatgan darpariaeth yn Neddf 2006 ynghylch ystod o faterion cyfreithiol penodol: achosion gan Senedd Cymru neu yn ei herbyn; cymhwyso, at ddibenion cyfraith difenwad, fraint absoliwt mewn perthynas â datganiadau a wneir mewn trafodion; a darpariaeth ynghylch dirmyg llys. Nid oes unrhyw faterion newydd yn codi wrth drosi'r darpariaethau hyn o Ddeddf 2006 i'r Bil hwn.

# Rhan 3: Deddfwriaeth

25. Mae darpariaethau Rhan 3 o'r Bil yn galluogi Senedd Cymru i wneud deddfau ("Deddfau Cymreig") o fewn ei chymhwysedd deddfwriaethol, ac mae Atodlenni 7 ac 8 yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â hynny. Mae Rhan 3 yn nodi pa fath o ddarpariaeth sydd o fewn cymhwysedd y Senedd (cymalau 37 i 41), y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud Deddfau Cymreig (cymalau 42 i 46) ac ym mha fodd y caiff y Goruchaf Lys graffu i weld a yw Deddf Gymreig o fewn cymhwysedd y Senedd (cymalau 48 a 49) ac y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd i rwystro'r Cydsyniad Brenhinol o dan amgylchiadau cyfyngedig penodol (cymal 50).

26. Mewn perthynas â phob un o'r materion hyn, mae Rhan 3 o'r Bil hwn yn seiliedig ar ddarpariaethau o Ran 4 o Ddeddf 2006, ond gyda nifer o newidiadau arwyddocaol, yn enwedig o ran beth fydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

## Cymhwysedd deddfwriaethol: materion a gedwir yn ôl a materion gohiriedig

27. Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer newid ar unwaith o fodel datganoli sy'n seiliedig ar roi pwerau i fodel cadw pwerau (cymal 37) ac ar gyfer datganoli plismona, achosion sifil a throseddol, cyfraith droseddol a chyfraith teulu (cymal 38) yn y tymor hirach. Cyfeirir at y rhain i gyd fel 'materion gohiriedig' hyd at y 'dyddiad trosglwyddo gohiriedig' o 1 Mawrth 2026 (gweler ymhellach Ran 2 o Atodlen 7 i'r Bil). Mae gwahanu cyfreithiau Cymru a Lloegr drwy greu awdurdodaeth neilltuol ar gyfer Cymru (gweler Rhan 5 o'r Bil) a datgan yn gliriach pryd y caiff Senedd Cymru wneud darpariaeth sy'n addasu agweddau ar y gyfraith droseddol (cyn iddi gael ei datganoli yn llawnach), yn osgoi'r cymhlethdod y byddai cynnal un awdurdodaeth gyfreithiol ar gyfer Cymru a Lloegr yn ei greu fel arall.

28. Mae cymal 37 yn pennu ffiniau cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru drwy osod pedwar cyfyngiad, sy'n datgan na chaiff Deddf Gymreig gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai:

- *Yn llunio rhan o gyfraith gwlad neu diriogaeth ac eithrio Cymru*. Effaith hyn yw cyfyngu cwmpas Deddfau Cymreig i Gymru yn unig, gan adlewyrchu creu awdurdodaeth benodol ar gyfer Cymru. Mae hyn felly yn newid y sefyllfa fel ag y mae o dan Ddeddf 2006; o dan y Ddeddf honno mae Deddfau Cymreig, yn dechnegol, yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr (er bod rhaid iddynt *ymwneud* â Chymru).

- *Yn ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r materion a gedwir yn ôl yn Rhan 1 o Atodlen 7*, oni bai ei bod yn 'ategol' i ddarpariaeth arall mewn Deddf Gymreig nad yw'n ymwneud â mater a gedwir yn ôl (yn yr un modd ag o dan Ddeddf 2006). At ddibenion y Bil drafft, mae darpariaeth yn 'ategol' os yw'n gorfodi darpariaeth arall, yn rhoi effaith i ddarpariaeth arall, neu os yw'n gysylltiedig

â darpariaeth arall neu'n ganlyniadol iddi. Yn yr un modd ag o dan Ddeddf 2006, mae pa un a yw darpariaeth yn 'ymwneud' â rhywbeth i'w benderfynu drwy gyfeirio at ddiben y ddarpariaeth, gan roi sylw i'w effaith o dan yr holl amgylchiadau (cymal 37(3)).

- *Yn torri unrhyw un neu ragor o'r cyfyngiadau yn Atodlen 8*, yn ddarostyngedig i unrhyw un neu ragor o'r eithriadau i'r cyfyngiadau hynny yn yr Atodlen honno (gweler isod am ragor o fanylion).
- *Yn torri naill ai gyfraith y UE neu'r hawliau hynny o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a ymgorfforir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998*. Gosodir y cyfyngiad hwn gan Ddeddf 2006 hefyd.

29. Fel yr eglurir uchod, caiff materion yn y categori "materion gohiriedig" eu datganoli yn llawn ar ôl y dyddiad trosglwyddo gohiriedig o Fawrth 2026. Mae cymal 38 yn rhoi peth hyblygrwydd i Senedd Cymru ymdrin â materion gohiriedig drwy gyfrwng darpariaeth 'ategol' cyn y dyddiad trosglwyddo gohiriedig.

30. Caiff Deddf Gymreig hefyd wneud unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â materion gohiriedig cyn y "dyddiad trosglwyddo gohiriedig" os gosodir copi ohoni gerbron Dau Dŷ'r Senedd ac nad yw'r naill na'r llall yn ei hanghymeradwyo. Mae cymal 47 yn darparu mai mater i'r Cwnsler Cyffredinol yw penderfynu, cyn y dyddiad trosglwyddo gohiriedig, a oes rhaid gosod Bil sy'n ymwneud â mater gohiriedig yn y modd hwn, ac mae cymal 45 yn caniatáu i'r Senedd ailystyried unrhyw Fil a anghymeradwyir wedi hynny.

## Y weithdrefn ddeddfwriaethol

31. Mae cymal 42 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno Biliau yn Senedd Cymru yn yr un modd, i raddau helaeth, ag y mae adran 110 o Ddeddf 2006. Mae cymal 43 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer camau'r Biliau sydd, unwaith eto, yn ailadrodd i raddau helaeth y darpariaethau perthnasol yn Neddf 2006. Mae cymal 44, fodd bynnag, yn ychwanegu gofyniad newydd (gan ddilyn darpariaeth ym Mil Cymru drafft yr Ysgrifennydd Gwladol) mewn cysylltiad â "phwnc a warchodir" (hynny yw, darpariaethau mewn Bil y mae'r Llywydd yn penderfynu eu bod yn diwygio trefniadau etholiadol Senedd Cymru). Ni chaniateir i Fil sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â phwnc a warchodir fynd yn ei flaen i gael y Cydsyniad Brenhinol oni bai bod o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm aelodau'r Senedd yn pleidleisio i gefnogi'r Bil yn y cam ystyried olaf.

32. Mae cymal 46 yn pennu'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno Biliau ar gyfer y Cydsyniad Brenhinol, gan gadw at yr un dull ag y darperir ar ei gyfer yn adran 115 o Ddeddf 2006 i raddau helaeth, ond gan roi'r swyddogaeth o gyflwyno'r Bil i'r Llywydd bellach yn hytrach nag i Glerc y Cynulliad. Gwneir darpariaeth sy'n ymwneud â'r Cydsyniad Brenhinol yng nghymal 51.

33. Caiff y dull presennol yn adran 112 o Ddeddf 2006, lle caiff y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol atgyfeirio cwestiynau o ran a yw darpariaethau Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol i'r Goruchaf Lys, ei ailadrodd gan gymal 48, a gwneir darpariaeth newydd yng nghymal 49 ar gyfer atgyfeirio Biliau gyda darpariaeth a allai ymwneud â "phynciau a warchodir" o dan amgylchiadau pan nad yw'r gofyniad am "uwch-fwyafrif" wedi'i fodloni.

34. Mae cymal 50 yn cynnwys pŵer (sy'n cyfateb i'r pŵer yn adran 114 o Ddeddf 2006) i'r Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd er mwyn atal Bil rhag cael ei gyflwyno ar gyfer y Cydsyniad Brenhinol pan fo ganddo reswm i gredu y byddai darpariaethau'r Bil yn anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU neu'n cael effaith andwyol ar ddiogelwch gwladol; neu y gallent gael effaith andwyol ar y gyfraith fel y mae'n gymwys i faterion a gedwir yn ôl (neu, cyn y dyddiad trosglwyddo gohiriedig, faterion gohiriedig).

35. Mae cymal 52 yn cadw'r trefniadau cyfredol ar gyfer y Sêl Gymreig o dan Ddeddf 2006.

## Atodlen 7

36. Mae Atodlen 7 yn cynnwys y rhestrau o faterion a gedwir yn ôl a materion gohiriedig (Rhannau 1 a 2 o Atodlen 7), ynghyd â rhai darpariaethau cyffredinol (Rhan 3 o Atodlen 7).

37. Mae Rhan 1 yn nodi'r materion a gedwir yn ôl ar sail grwpiau thematig ('adrannau'), ac yn egluro bod materion a gedwir yn ôl yn ddarostyngedig i unrhyw ddehongliadau neu eithriadau a restrir yn yr un adran, ond nad yw eithriadau ac ati o dan un adran yn gymwys i adrannau eraill. Mae Rhan 2 yn nodi'r materion gohiriedig, fesul adran unwaith eto, ac yn cynnwys yr un ddarpariaeth er mwyn egluro bod materion a gedwir yn ôl hefyd yn ddarostyngedig i unrhyw ddehongliadau neu eithriadau sy'n ymddangos yn yr un adran (ond, unwaith eto, nad yw eithriadau ac ati o dan un adran yn gymwys i adrannau eraill).

38. Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol mewn perthynas ag awdurdodau cyhoeddus Cymreig a darparu cymorth ariannol. Mae paragraffau 165 i 167 yn darparu nad yw 'awdurdodau cyhoeddus Cymreig' nad ydynt yn arfer unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â mater a gedwir yn ôl wedi'u cadw yn ôl, a bod awdurdodau cyhoeddus Cymreig sy'n arfer rhai materion a gedwir yn ôl, a rhai nad ydynt wedi'u cadw yn ôl, ond wedi'u cadw yn ôl mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau sydd wedi'u cadw yn ôl – ac nid mewn perthynas â'u cyfansoddiad, er enghraifft, nac ag addasu unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau nad ydynt wedi'u cadw yn ôl. Wedi hynny, mae paragraff 167 yn darparu bod materion gohiriedig, cyn y dyddiad trosglwyddo gohiriedig, i'w trin at y dibenion hyn yn yr un modd â materion a gedwir yn ôl.

## Atodlen 8

39. Effaith Atodlen 8 a chymal 37(1)(d) yw y bydd darpariaeth mewn Deddf Gymreig y tu allan i gymhwysedd os yw'n torri unrhyw un neu ragor o'r cyfyngiadau yn yr Atodlen, hyd yn oed os yw o fewn cymhwysedd ym mhob ffordd arall (ceir darpariaeth debyg yn adran 108(6)(a) o Deddf 2006 ac Atodlen 7 iddi). Mae'r Atodlen yn adlewyrchu Atodlen 4 i Ddeddf yr Alban 1998 a Rhannau 2 a 3 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006, ond mae:

(a) swyddogaethau Gweinidogion y Goron Llywodraeth y DU ond yn adlewyrchu'r angen i warchod *rhai* o swyddogaethau Gweinidogion y Goron mewn perthynas â materion *penodol* tra bo'r materion hynny yn ohiriedig (e.e. swyddogaethau mewn perthynas â chyfiawnder troseddol) - hynny yw, y materion hynny nad ydynt yn cael eu datganoli ar unwaith ond a fydd yn cael eu datganoli ar y "dyddiad trosglwyddo gohiriedig" neu wedi hynny; a

(b) yn gwarchod awdurdodau nad yw Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru yn gyfrifol amdanynt yn gyffredinol (awdurdodau a gedwir yn ôl) ac yn creu eglurder drwy enwi pob awdurdod o'r fath yn benodol.

40. Mae Rhan 2 o'r Atodlen yn darparu ar gyfer eithriadau cyffredinol i'r cyfyngiadau yn Rhan 1. Er enghraifft, mae paragraff 12 yn caniatáu i Ddeddf Gymreig addasu swyddogaeth Gweinidog y Goron (er enghraifft) sy'n ymwneud â mater gohiriedig cyn y dyddiad trosglwyddo gohiriedig (hynny yw, cyn iddo gael ei ddatganoli'n llawn) os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio, neu heb gydsyniad o'r fath os yw gwneud hynny yn ganlyniadol i unrhyw ddarpariaeth arall yn y Ddeddf Gymreig, neu'n gysylltiedig â hi. Yn yr un modd, mae paragraff 13 yn caniatáu i Ddeddf Gymreig addasu swyddogaethau, ac ati, awdurdod a gedwir yn ôl os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio i hynny, neu heb gydsyniad o'r fath os yw gwneud hynny yn ganlyniadol i unrhyw ddarpariaeth arall yn y Ddeddf Gymreig, neu'n gysylltiedig â hi yn cael gwared ar y cyfyngiad cyffredinol o dan Ddeddf 2006 sy'n gwarchod.

## Atodlen 12

41. Mae Atodlen 12 (a gyflwynir gan gymal 115) yn adlewyrchu Atodlen 6 i Ddeddf yr Alban 1998 ac Atodlen 9 i Ddeddf 2006. Mae'n nodi beth yw 'mater datganoli', ac yn gwneud darpariaeth sy'n golygu, os yw mater o'r fath yn codi (mewn achos sifil neu droseddol, er enghraifft) ar ôl i Ddeddf Gymreig gael ei gwneud, y gellir ei nodi, hysbysu'r Swyddogion Cyfraith perthnasol ac, yn y pen draw, atgyfeirio'r mater i'r Goruchaf Lys. Mewn achosion penodol caiff y Swyddogion Cyfraith perthnasol atgyfeirio mater o'r fath i'r Goruchaf Lys ni waeth a yw wedi codi mewn achos cyfreithiol ai peidio.

# Rhan 4: Llywodraeth Cymru

42. Mae Rhan 4 yn ailddatgan, gyda rhai diwygiadau, lawer o'r ddarpariaeth a nodir yn Rhan 2 o Ddeddf 2006 ar hyn o bryd ynghylch cyfansoddiad Llywodraeth Cymru a chyfrifoldebau gweithredol Gweinidogion Cymru.

## Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru

43. Mae cymal 53 yn darparu mai Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion a benodir gan y Prif Weinidog, a Chwnsler Cyffredinol Cymru sy'n ffurfio "Llywodraeth Cymru". Gelwir y Prif Weinidog a'r Gweinidogion yn "Weinidogion Cymru". (Fel arfer, mae swyddogaethau statudol yn cael eu harfer gan "Weinidogion Cymru", neu ar eu rhan). Mae cymalau 54 i 58 yn ailddatgan darpariaeth ar benodi'r Prif Weinidog, Gweinidogion eraill, Dirprwy Weinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol. Mae cymalau 59 i 61 yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i Weinidogion a llwon eu swyddi. Mae cymal 63 yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi staff Llywodraeth Cymru a'u statws fel gweision sifil.

## Cyfrifoldebau Gweithredol

44. Mae cymalau 64 i 73 yn ymdrin mewn modd cyffredinol â swyddogaethau gweithredol (statudol ac anstatudol) Gweinidogion Cymru. Maent wedi’u seilio, yn fras, ar adrannau 52 i 58 o Ddeddf yr Alban 1998.

45. Mae cymal 64 yn rhoi pwerau uchelfreiniol penodol a phwerau gweithredol eraill i Weinidogion Cymru. Ystyr pwerau uchelfreiniol yw pwerau hanesyddol sy'n cael eu harfer yn ffurfiol gan y Frenhines, ond sydd mewn gwirionedd yn cael eu harfer fel rheol gan Weinidogion y Llywodraeth yn Ei henw. Mae'r pwerau gweithredol eraill y cyfeirir atynt yn galluogi Gweinidogion i wneud pethau, wrth arfer eu cyfrifoldebau, y gall person naturiol eu gwneud, er enghraifft pwerau i fynd i gostau ac i ymrwymo i gontractau. Yn gyffredinol mae cymal 64 yn trosglwyddo'r pwerau uchelfreiniol a'r pwerau gweithredol eraill hyn pan fônt yn arferadwy o fewn cymhwysedd datganoledig Senedd Cymru (trafodir hyn ymhellach isod), neu pan fônt yn arferadwy ar y cyd â swyddogaethau statudol cyfredol.

46. Effaith cymal 65 yw trosglwyddo yn gyffredinol swyddogaethau Gweinidogion y Goron y DU o fewn cymhwysedd datganoledig i Weinidogion Cymru (gan leihau cymhlethdod drwy fod pwerau Llywodraeth Cymru a phwerau Senedd Cymru yn cydweddu'n agosach). Mae'r trosglwyddiad yn cwmpasu swyddogaethau sy'n arferadwy o fewn cymhwysedd datganoledig a roddwyd yn wreiddiol i un o Weinidogion y Goron gan unrhyw ddeddfwriaeth sy'n perthyn i gyfnod cyn y Bil hwn, neu unrhyw offeryn uchelfreiniol sy'n perthyn i gyfnod cyn y Bil hwn. Mae'r adran hon hefyd yn cadarnhau y bydd Gweinidogion Cymru yn para i arfer y

swyddogaethau a drosglwyddwyd iddynt yn flaenorol o dan ddeddfwriaeth gyfredol. O'r "dyddiad trosglwyddo gohiriedig" o 1 Mawrth 2026 a drafodwyd yn flaenorol, bydd y cymal hwn hefyd yn trosglwyddo swyddogaethau Gweinidogion y DU sy'n ymwneud â materion gohiriedig.

47. Mae cymal 67 yn seiliedig ar adran 57 o Ddeddf 2006. Mae'n cadarnhau y caniateir rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru yn ôl yr enw hwnnw, ac y bydd y swyddogaethau hynny yn arferadwy ar ran Ei Mawrhydi. Mae hefyd yn darparu bod swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn arferadwy gan Ddirprwy Weinidogion.

48. Mae cymal 68, sy'n seiliedig ar adran 54 o Ddeddf yr Alban 1998, yn nodi ystyr arfer swyddogaeth o fewn cymhwysedd datganoledig neu y tu allan iddo. Wrth arfer swyddogaeth o wneud, o gadarnhau neu o gymeradwyo is-ddeddfwriaeth, bydd y tu allan i gymhwysedd datganoledig i gynnwys unrhyw ddarpariaeth na ellid ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru. Wrth arfer unrhyw swyddogaeth arall, bydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol os na allai Deddf gan Senedd Cymru roi'r swyddogaeth honno i Weinidogion Cymru, neu ei rhoi i Weinidogion Cymru yn y modd angenrheidiol.

49. Mae cymal 69 yn darparu na fydd unrhyw swyddogaeth sy'n ddarostyngedig i ofyniad i'w harfer gyda chytundeb un arall o Weinidogion y Goron, neu ar ôl ymgynghori ag ef, ac sy'n cael ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru o dan y Bil hwn, bellach yn ddarostyngedig i'r gofyniad hwnnw. Mae hyn yn seiliedig ar adran 55 o Ddeddf yr Alban 1998.

50. O dan gymal 70, gall Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor bennu swyddogaethau un o Weinidogion y Goron o fewn cymhwysedd datganoledig na fyddant yn trosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan gymal 64 neu 65 o’r Bil. Bydd y swyddogaethau hyn yn arferadwy naill ai gan un o Weinidogion y Goron ar ei ben ei hun, neu gan un o Weinidogion y Goron a Gweinidogion Cymru ill dau. Bydd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan y cymal hwn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Senedd Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig.

51. Mae cymal 71 yn darparu bod Gweinidogion y DU, er gwaethaf y trosglwyddo swyddogaethau o dan y Rhan hon o'r Bil, i gadw swyddogaethau at y diben o ddilyn neu weithredu Cyfraith yr UE mewn cysylltiad â materion datganoledig yng Nghymru. Mae'r adran hon hefyd yn cadarnhau na chaiff Llywodraeth Cymru wneud unrhyw beth sy'n anghydnaws â Chyfraith yr UE na’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gwneir darpariaeth debyg ar hyn o bryd yn adrannau 80 ac 81 o Ddeddf 2006 ac adran 57 o Ddeddf yr Alban 1998.

52. Mae cymal 72 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo bod rhaid i aelod o Lywodraeth Cymru gymryd camau i roi effaith i unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y DU, neu beidio â chymryd camau a allai fod yn anghydnaws ag unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau rhyngwladol y DU.

Mae'r ddarpariaeth hon yn debyg i adran 82 o Ddeddf 2006 ac adran 58 o Ddeddf yr Alban 1998.

53. Mae cymalau 74 a 75 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynglŷn ag eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol. Yn benodol, maent yn gwneud darpariaeth ynglŷn â sut y cânt ddal eiddo, olyniaeth wastadol a throsglwyddiadau pellach o eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Llywodraeth y DU i Gymru.

54. Yn olaf, mae cymal 76 yn rhoi'r pŵer i Ei Mawrhydi drosglwyddo rhagor o swyddogaethau Gweinidogion y DU i Weinidogion Cymru drwy gyfrwng Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Gwneir darpariaeth debyg eisoes yn adran 58 o Ddeddf 2006 ac adran 63 o Ddeddf yr Alban 1998.

## Atodlen 9 - Swyddogaethau newydd penodol Gweinidogion Cymru

55. Mae Atodlen 9, a gyflwynir gan gymal 73, yn rhoi swyddogaethau gweithredol newydd penodol i Weinidogion Cymru. Mae paragraff 1 a 2 yn darparu ei bod yn ofynnol cael cytundeb Gweinidogion Cymru mewn perthynas â phenodiadau penodol i'r BBC ac i S4C. Mae paragraff 3 yn rhoi swyddogaethau newydd i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Hapchwarae 2005. Bydd y swyddogaethau hyn yn galluogi iddynt amrywio nifer y peiriannau hapchwarae a awdurdodir gan drwydded safle betio. Mae paragraff 4 yn rhoi swyddogaethau cyfle cyfartal newydd i Weinidogion Cymru, gan gynnwys pŵer i ddyroddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau datganoledig Cymreig ynglŷn â sut i gyflawni dyletswydd gymdeithasol-economaidd y sector cyhoeddus yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Rhan 5 - Awdurdodaethau cyfreithiol Cymru a Lloegr

56. Ar hyn o bryd, mae Cymru a Lloegr yn rhannu awdurdodaeth gyfreithiol, gyda barnwriaeth gyffredin ac un system o lysoedd. Ym marn Llywodraeth Cymru, fel yr eglurwyd yn ein Tystiolaeth Atodol (Tachwedd 2015) ar gyfer Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, roedd rhai o'r problemau mwyaf anodd eu goresgyn mewn perthynas â Bil Cymru Drafft Llywodraeth y DU - yn arbennig o ran y cyfyngiadau ar bwerau deddfwriaethol y Cynulliad - yn deillio o'r rhagdybiaeth yn y Bil y dylid cadw'r awdurdodaeth bresennol. Yn ein barn ni, mae'r corff o ddeddfwriaeth Gymreig sy'n bodoli'n barod, y gofynion gwahanol sydd ar lysoedd Cymru (cyfreithiau gwahanol ac iaith wahanol), y symud tuag at ddatganoli yn seiliedig ar y model cadw pwerau, a'r gofyniad hanfodol i beidio â chyfyngu ar ddeddfwrfa Cymru yn y fath fodd, yn golygu ei bod hi'n hanfodol creu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru.

57. Yn unol â hynny, mae Rhan 5 o'r Bil yn rhannu awdurdodaeth bresennol Cymru a Lloegr, gan greu dwy awdurdodaeth gyffelyb; awdurdodaeth gyfreithiol Cymru ac awdurdodaeth gyfreithiol Lloegr. Bydd systemau llysoedd gyda nodweddion neilltuol yn perthyn iddynt yn cael eu creu ar gyfer Cymru a Lloegr, ond cyfrifoldeb Llywodraeth y DU fydd eu gweinyddu ar y cychwyn. Bydd barnwriaeth gyffredin yn cael ei chadw ar y cychwyn hefyd, i wasanaethu'r ddwy system lysoedd fel ei gilydd.

58. Mae cymal 79 o'r Bil yn gwahanu Uwchlysoedd Cymru a Lloegr i greu Uwchlysoedd Cymru ac Uwchlysoedd Lloegr. Mae hyn yn golygu creu Llys Apêl Cymru, Uchel Lys Cymru a Llys y Goron Cymru. Caiff y llys sirol a'r llys teulu hefyd eu gwahanu gan gymal 80 i greu llys sirol Cymru a llys teulu Cymru. Mae Uwchlysoedd, llysoedd sirol a llysoedd teulu cyfatebol hefyd yn cael eu creu ar gyfer Lloegr. Bydd pob llys yn gallu arfer yr holl swyddogaethau ag oedd yn arferadwy gan y llys cyfatebol cyn i'r ddarpariaeth ddod i rym. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud gan gymal 83 i drosglwyddo achosion sydd yn yr arfaeth mewn unrhyw lys adeg rhannu'r awdurdodaeth i'r llys priodol yn yr awdurdodaeth y mae'r achos yn berthnasol iddi.

59. Bydd barnwyr a fyddai wedi'u penodi hyd yma i Lys Apêl neu Uchel Lys Cymru a Lloegr yn awr, trwy rinwedd cymal 81, yn cael eu penodi i Lys Apêl neu Uchel Lys Cymru, ac ar yr un pryd i Lys Apêl neu Uchel Lys Lloegr; a byddant yn eistedd yn y Llys sy'n briodol i'r achosion ger eu bron. Bydd parhau â'r farnwriaeth gyffredin yn debygol o arwain at gysondeb yn y gyfraith gyffredin a sicrhau bod y ddwy awdurdodaeth yn gyfartal. Bydd y Goruchaf Lys ar frig system lysoedd Cymru (yn ogystal â system Lloegr, ar wahân) yn yr un modd ag y mae ar hyn o bryd ar gyfer awdurdodaethau Cymru a Lloegr, Gogledd Iwerddon ac (yn amodol ar rai cyfyngiadau) yr Alban. Gan hynny, bydd y Goruchaf Lys yn parhau i weithredu fel goruchwylydd cyffredinol hanfodion, a datblygiad pellach, y gyfraith a'r egwyddor gyfreithiol ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon ac (gan ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau o ran trefniadaeth) yr Alban.

60. Mae rhanddeiliaid sy’n arbenigwyr ar y gyfraith wedi cadarnhau na fyddai’r awdurdodaeth gyfreithiol neilltuol yn arwain at unrhyw broblemau o bwys i’r proffesiwn cyfreithiol nac i’r farnwriaeth. Bydd gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith sydd ar hyn o bryd yn gallu ymarfer yng Nghymru neu yn Lloegr, neu ymarfero o’r naill wlad a’r llall, yn gallu parhau i wneud hynny o dan awdurdodaeth neilltuol i Gymru. Gan mai felly y mae pethau’n gweithio’n barod yn achos Gogledd Iwerddon, nid oes rheswm pam na allai fod felly yng Nghymru.

61. Ar hyn o bryd, oherwydd bod Cymru a Lloegr yn llunio un diriogaeth awdurdodaethol, mae deddfwriaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn dod yn rhan o 'gyfraith Cymru a Lloegr', h.y. mae'n "estyn" i Gymru a Lloegr, hyd yn oed os mai yng Nghymru yn unig y mae'n "gymwys" (neu'n cael effaith gyfreithiol). (Yn yr un modd, mae'n agored i Senedd y DU wneud cyfraith sy'n <u>gymwys</u> yn Lloegr yn unig, er ei bod yn <u>estyn</u> i Gymru a Lloegr). Bydd creu awdurdodaeth gyfreithiol newydd i Gymru yn golygu bod deddfwriaeth Senedd Cymru yn gymwys i Gymru yn unig, ond bydd hefyd yn estyn i Gymru yn unig; bydd deddfwriaeth Cymru yn peidio â chael effaith "alldiriogaethol" (y tu allan i Gymru). Gwneir darpariaeth yng nghymal 82 i lysoedd Cymru gymhwyso'r gyfraith sy’n estyn i Gymru (h.y. cyfraith Cymru), a gwneir darpariaeth gyfatebol i lysoedd Lloegr gymhwyso'r gyfraith sy’n estyn i Loegr (h.y. cyfraith Lloegr). Mae'r gyfraith ei hun wedi'i rhannu gan gymal 78, fel bod cyfraith Cymru a Lloegr yn dod yn gyfraith Cymru ac yn gyfraith Lloegr.

62. Nid yw'r cyfrifoldeb am y llysoedd, y farnwriaeth a'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau gweinyddu cyfiawnder wedi'i ddatganoli i Gymru ar hyn o bryd, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fydd yn parhau â'r cyfrifoldeb hwn. Nid oes unrhyw beth yn Rhan 5 o'r Bil sy'n effeithio ar hyn, ond mae'r cyfrifoldebau hyn yn dod yn "faterion gohiriedig" (gweler Atodlen 7 Rhan 2), ac ar y "dyddiad trosglwyddo gohiriedig", sef 1 Mawrth 2026, daw'r rhain yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru (a, gan hynny, yn rhan o gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru trwy rinwedd cymal 65).

# Rhan 6: Cyllid

63. Mae Rhan 6 yn cadw egwyddorion sylfaenol rheolaeth gyllidol fel y'u gosodir yn Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ond mae'n dileu gofynion disgrifiadol y gweithdrefnau cyllidebol a chyfrifyddu a fydd yn destun deddfwriaeth yn ymwneud â fframwaith cyllidol Senedd Cymru yn y dyfodol. Bydd y trefniadau trosiannol yn sicrhau bod darpariaethau Deddf 2006 yn gymwys hyd nes y caiff deddfwriaeth o'r fath ei phasio gan Senedd Cymru.

64. Mae cymal 85 yn darparu ar gyfer parhad Cronfa Gyfunol Cymru y mae'n ofynnol i'r Tâl-feistr Cyffredinol ei dal. Rhaid i daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn deillio o arian a roddir iddo ef neu iddi hi gan Senedd y DU, gael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Caiff symiau a dderbynnir gan Weinyddiaeth Cymru eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru oni fydd deddfiad yn darparu'n benodol nad ydynt i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Gall Trysorlys Ei Mawrhydi ddynodi derbyniadau y mae'n ofynnol eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru a rhaid i Weinidogion Cymru dalu symiau o'r fath a dderbynnir i'r Ysgrifennydd Gwladol.

65. Mae cymal 86 yn cynnwys darpariaeth i symiau gael eu talu allan o Gronfa Gyfunol Cymru os ydynt wedi'u codi ar y Gronfa gan unrhyw ddeddfiad, neu os ydynt i'w talu allan at ddibenion bodloni gwariant Gweinyddiaeth Cymru yn unol â'r rheolau a wneir gan un o Ddeddfau Senedd Cymru, neu o dan Ddeddf o'r fath.

66. Mae cymalau 87 i 89 yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru fenthyca gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud yn iawn am ddiffyg dros dro yng Nghronfa Gyfunol Cymru, er mwyn darparu balans gweithio yn y Gronfa; i fodloni gwariant presennol oherwydd diffyg mewn derbyniadau o drethi datganoledig yn erbyn y rhagolygon refeniw; neu i ariannu gwariant cyfalaf. Ni all y cyfanswm y gellir ei fenthyca at ddibenion refeniw fod yn fwy na £500 miliwn. Gosodir terfyn arall o £500 miliwn ar y cyfanswm y gellir ei fenthyca at ddibenion cyfalaf. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chydsyniad Trysorlys Ei Mawrhydi, adolygu'r uchafswm benthyca cyfalaf neu refeniw i fyny neu i lawr, ond nid yn is na £500 miliwn.

67. Mae cymal 90 yn cynnwys darpariaeth i ddeddfwriaeth Gymreig barhau â'r gofyniad bod yna Archwilydd Cyffredinol i Gymru (y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013). Rhaid i ddeddfwriaeth Gymreig hefyd gynnwys darpariaeth i benodi Archwilydd Cyffredinol gan Ei Mawrhydi ar enwebiad Senedd Cymru ac na ddylid gwneud argymhelliad i'w dynnu ef neu i'w thynnu hi o'i swydd oni fydd mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodau Senedd Cymru wedi cytuno â'r argymhelliad hwnnw.

68. Mae cymal 91 yn cynnwys darpariaeth i ddeddfwriaeth Gymreig gael ei phasio er mwyn darparu ar gyfer paratoi cyfrifon gan bersonau a ariennir trwy Gronfa Gyfunol Cymru; ar gyfer gwneud personau sy'n derbyn symiau'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, neu symiau sy’n deillio o'r Gronfa, yn atebol am wariant a

derbyniadau; ar gyfer swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan gynnwys archwilio'r cyfrifon a baratoir gan Weinyddiaeth Cymru a chymeradwyo tynnu arian o'r Gronfa; ac ar gyfer gosod cyfrifon seneddol ac adroddiadau ar gyfrifon o'r fath gerbron Senedd Cymru.

69. Mae cymal 92 yn cynnwys darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi cyfrif ar y symiau a dalwyd ac a dderbyniwyd mewn perthynas â benthyciadau i Weinidogion Cymru o dan cymalau 87 ac 88.

# Rhan 7: Trethiant

70. Mae'r darpariaethau yn Rhan 7 o'r Bil yn galluogi Senedd Cymru i bennu'r graddfeydd treth incwm i'w talu gan drethdalwyr Cymreig ac yn rhagnodi trethi penodol yn drethi datganoledig y gall Senedd Cymru wneud darpariaeth yn eu cylch yn unol ag cymal 36.

## Treth incwm

71. Mae cymal 94 yn amlinellu'r gweithdrefnau er mwyn i'r darpariaethau ynghylch treth incwm a wneir yng nghymal 95 ddod i rym. Ni ellir gwneud unrhyw reoliadau yn dod â'r darpariaethau hynny i rym oni fydd Senedd Cymru wedi penderfynu, trwy gynnig a gynigir gan un o Weinidogion Cymru, y dylid gwneud hynny. Rhaid i'r penderfyniad gael ei basio gan o leiaf dwy ran o dair o gyfanswm seddi Senedd Cymru.

72. Mae cymal 95 yn cynnwys darpariaeth i Senedd Cymru, trwy benderfyniad, bennu cyfradd treth incwm Gymreig sylfaenol, uwch ac ychwanegol ar gyfer trethdalwyr Cymru. Mae Rhan 1 o Atodlen 10 yn diffinio trethdalwr Cymreig at ddibenion treth incwm. Unigolyn sy'n preswylio yn y DU at ddibenion treth incwm, ac sy'n bodloni o leiaf un o'r tri amod a ragnodir yn yr Atodlen, yw trethdalwr Cymreig. Caiff unigolyn ei ystyried yn drethdalwr Cymreig os mai yng Nghymru y mae ei unig fan preswylio a'i fod yn byw yn y man hwnnw am ran o'r flwyddyn o leiaf. Os oes gan unigolyn fwy nag un man preswylio, un ohonynt yng Nghymru a'r llall mewn man arall yn y DU, caiff ei ystyried yn drethdalwr Cymreig os yw ei brif fan preswylio yng Nghymru neu os yw'r amser yn y flwyddyn a dreulir yn ei fan preswylio yng Nghymru yn fwy na'r amser yn y flwyddyn y mae'r unigolyn yn ei dreulio yn y man preswylio arall yn y rhan arall o'r DU. Mae unigolyn hefyd yn drethdalwr Cymreig os, am y flwyddyn gyfan neu am unrhyw ran o'r flwyddyn, mae'n aelod o Senedd y DU ar gyfer etholaeth yng Nghymru, Aelod Cymru o Senedd Ewrop neu'n Aelod o Senedd Cymru.

73. Er mwyn cyfrifo cyfradd treth incwm Gymreig ar gyfer blwyddyn dreth, bydd cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol y DU yn cael eu lleihau o 10 pwynt canran a bydd y cyfraddau Cymreig ar wahân, a bennir gan Senedd Cymru, yn cael eu hychwanegu at bob un o'r cyfraddau wedi'u lleihau. Gall Senedd Cymru gyflwyno gwahanol gyfradd ar gyfer y cyfraddau Cymreig sylfaenol, uwch ac ychwanegol, bob un ohonynt, gan olygu y gallai'r cyfraddau amrywio o'u cymharu â'r cyfraddau yng ngweddill y DU. Mae'r cyfraddau Cymreig sylfaenol, uwch ac ychwanegol yn gymwys i "incwm nad yw'n deillio o gynilion" ac "incwm nad yw'n deillio o ddifidend".

74. Mae'r penderfyniad ynghylch y gyfradd treth incwm Gymreig yn gymwys ar gyfer un flwyddyn dreth yn unig a rhaid i'r gyfradd fod naill ai'n hanner rhif neu'n rhif cyfan sy'n gymwys ar gyfer y flwyddyn gyfan honno. Rhaid i'r penderfyniad ragnodi'r flwyddyn dreth y mae'n gymwys iddi a rhaid iddo gael ei wneud cyn

dechrau'r flwyddyn ond ni ellir ei wneud fwy na 12 mis cyn dechrau'r flwyddyn honno. Os bydd penderfyniad ynghylch y gyfradd Gymreig yn cael ei ganslo cyn dechrau'r flwyddyn dreth y mae'n gymwys iddi, bydd y Deddfau Treth Incwm yn cael effaith ar gyfer y flwyddyn honno fel pe na bai'r penderfyniad wedi'i basio.

## Trethi datganoledig

75. Mae cymal 96 yn darparu bod treth ar drafodiadau yn ymwneud â buddiannau mewn tir yng Nghymru yn dreth ddatganoledig. Bydd casglu a rheoli Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru yn dod i ben a bydd Senedd Cymru yn gallu cyflwyno ei threth trafodiadau tir ei hun. Ystyr trafodiadau tir Cymreig yw caffael ystâd, buddiant, hawl neu bŵer dros dir yng Nghymru. Bydd treth ddatganoledig ar drafodiadau tir Cymreig yn gymwys pa un a ydy unrhyw un sydd â rhan yn y trafodiad yn preswylio yng Nghymru ai peidio, a pha un a oes yna unrhyw offeryn sy'n dod â'r trafodiad i effaith ai peidio. Mae Rhan 2 o Atodlen 10 yn rhagnodi na ellir gorfodi treth ddatganoledig ar drafodiadau tir yng Nghymru i'r graddau y maent yn gymwys i dir sy'n is na'r marc distyll cymedr ac na ellir ei gorfodi ar Weinidogion y DU a llywodraethau datganoledig a chyrff corfforaethol sy'n gysylltiedig â deddfwrfeydd y DU.

76. Mae cymal 97 yn darparu bod treth a godir ar warediadau tirlenwi yng Nghymru yn dreth ddatganoledig. Bydd casglu a rheoli'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru yn dod i ben a bydd Senedd Cymru yn gallu cyflwyno ei threth ei hun ar warediadau i safleoedd tirlenwi. Bydd gwaredu gyfystyr â gwaredu i safle tirlenwi os bydd deunyddiau'n cael eu gwaredu fel gwastraff a hynny'n cael ei wneud trwy dirlenwi.

77. Mae cymal 98 yn darparu bod treth sy'n cael ei chodi ar gludo teithwyr trwy'r awyr o feysydd awyr yng Nghymru yn dreth ddatganoledig. Bydd casglu a rheoli tollau teithwyr awyr yng Nghymru yn dod i ben a bydd Senedd Cymru yn gallu cyflwyno ei threth ei hun ar gludo teithwyr trwy'r awyr o feysydd awyr yng Nghymru.

78. Mae cymal 99 yn darparu bod treth sy'n cael ei chodi ar agregau pan fo'n destun egsbloetio masnachol yng Nghymru yn dreth ddatganoledig. Mae Rhan 2 o Atodlen 10 yn rhagnodi na ddylid codi treth pan fo agregau yn destun egsbloetio masnachol ar gyfer tanwydd. Bydd casglu a rheoli ardoll agregau ar gyfer agregau sy'n destun egsbloetio masnachol yng Nghymru yn dod i ben a bydd Senedd Cymru yn gallu cyflwyno ei threth ei hun ar agregau sy'n destun egsbloetio masnachol yng Nghymru.

79. Mae cymal 100 yn darparu y gall Ei Mawrhydi, trwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ychwanegu trethi datganoledig newydd o unrhyw fath. Ni ellir gwneud unrhyw argymhellion i Ei Mawrhydi oni fydd offeryn statudol drafft yn cynnwys y Gorchymyn wedi cael ei osod gerbron dau Dŷ Senedd y DU a Senedd Cymru, ac wedi'i gymeradwyo trwy benderfyniad ganddynt bob un.

# Rhan 8: Diwygio'r gyfraith

80. Mae Rhan 8 yn sefydlu Comisiwn y Gyfraith Cymru ac mae'n seiliedig, yn rhannol, ar Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002 a Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'u diwygiwyd.

81. Fel y trafodwyd uchod, mae Rhan 5 o'r Bil yn rhannu awdurdodaeth gyfreithiol bresennol Cymru a Lloegr i greu awdurdodaeth gyfreithiol Cymru ac awdurdodaeth gyfreithiol Lloegr. Mae sefydlu Comisiwn y Gyfraith Cymru yn gysylltiedig â'r gwahanu hwn. Mae gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith sy'n gwasanaethu Cymru a Lloegr ar hyn o bryd berthynas weithio effeithiol a gwerthfawr, fodd bynnag, bydd creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru yn gofyn am sefydlu corff penodol i Gymru i oruchwylio'r modd y caiff y gyfraith ei datblygu a'i diwygio yn yr awdurdodaeth honno. Gellir cymharu hyn â sefyllfa Comisiwn y Gyfraith yr Alban a Chomisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon a'r hyn a fydd yn dod yn Gomisiwn y Gyfraith Lloegr.

82. Mae cymal 102 yn sefydlu Comisiwn y Gyfraith Cymru ac yn darparu y bydd yn cynnwys Comisiynydd i'w gadeirio a phedwar Comisiynydd arall, pob un i'w benodi gan Weinidogion Cymru. Mae Atodlen 11 i'r Bil, a gyflwynir gan gymal 102, yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch llywodraethu ac ariannu'r Comisiwn.

83. Mae cymal 103 yn amlinellu dyletswydd gyffredinol y Comisiwn, i adolygu cyfraith Cymru yn barhaus gyda'r nod o fynd ati mewn modd systematig i'w datblygu a'i diwygio. Wrth weithredu, mae'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiwn y Gyfraith Lloegr, Comisiwn y Gyfraith yr Alban a Chomisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon. Bydd dulliau'r Comisiwn ar gyfer arfer ei gyfrifoldebau yn cynnwys cydgrynhoi a chodeiddio, a chynigion ar gyfer diddymu statudau darfodedig neu ddiangen a dileu anghysondebau, gyda'r nod o symleiddio a moderneiddio'r gyfraith yng Nghymru. Wrth arfer y ddyletswydd gyffredinol hon, mae'n ofynnol i'r Comisiwn wneud nifer o bethau, gan gynnwys ystyried y cynigion ar gyfer diwygio gan Weinidogion Cymru, llunio Biliau drafft a chynigion anneddfwriaethol fel ffordd o ddiwygio, a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus ar gynigion i ddiwygio'r gyfraith. Mae cymal 105 yn gwneud darpariaeth ar gyfer llunio protocol rhwng Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn ynghylch ei waith.

84. Mae cymal 104 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod adroddiad gerbron Senedd Cymru bob blwyddyn yn amlinellu pa rai o gynigion y Comisiwn ar gyfer diwygio sydd wedi cael eu gweithredu a pha rai sy'n aros i'w gweithredu; a pha gynlluniau sydd gan y Gweinidogion i ymdrin ag unrhyw gynigion nad ydynt wedi'u gweithredu, ac os gwneir penderfyniad i beidio â'u gweithredu, y rhesymau dros unrhyw benderfyniad o'r fath.

# Rhan 9: Amrywiol ac atodol

85. Mae Rhan 9 yn seiliedig yn bennaf ar y gyfraith gyfredol a welir ar hyn o bryd yn Neddf 2006 neu yn Neddf yr Alban 1998. Mae'n cynnwys nifer o ddarpariaethau digyswllt, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hegluro isod. Pan fo'r darpariaethau yn hunanesboniadol, ni roddir unrhyw wybodaeth bellach.

86. Yn y Rhan hon, cyfeirir at "ddeddfiadau cyn-gychwyn" mewn sawl man. Yn gyffredinol, Deddfau neu ddeddfwriaeth arall yw'r rhain a gafodd eu pasio neu eu gwneud cyn i'r Bil hwn gael ei basio.

87. Mae cymal 106 yn darparu ar gyfer creu swydd Argraffydd y Frenhines ar gyfer Cymru, sy'n angenrheidiol er mwyn cysoni a ffurfioli'r trefniadau gweinyddol cyfredol ar gyfer cyhoeddi cyfreithiau Cymru gan yr Archifau Gwladol. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa mewn perthynas â chyhoeddi cyfreithiau yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar hyn o bryd, mae Argraffydd y Frenhines ar gyfer Deddfau Senedd y DU hefyd yn dal swydd Argraffydd y Frenhines ar gyfer yr Alban ac Argraffydd y Llywodraeth ar gyfer Gogledd Iwerddon, ac yn y dyfodol bydd hefyd yn dal swydd Argraffydd y Frenhines ar gyfer Cymru.

88. Mae cymal 107 yn atgynhyrchu (gyda rhai newidiadau) adran 83 o Ddeddf 2006. Mae'n caniatáu gwneud trefniadau rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y Goron, adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus penodol at ddibenion megis arfer swyddogaethau ei gilydd a darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol. Cyfeirir at y trefniadau hyn yn aml fel "trefniadau asiantaeth".

89. Mae cymalau 108 i 111, sy'n debyg i adrannau 88 i 90 o Ddeddf yr Alban 1998, yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag awdurdodau cyhoeddus trawsffiniol. Awdurdodau yw'r rhain sydd wedi'u pennu gan y Frenhines mewn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ac sydd, ynghyd â swyddogaethau eraill, â swyddogaethau sy'n arferadwy yng Nghymru neu o ran Cymru, ac nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Rhoddir y pŵer i Ei Mawrhydi wneud darpariaeth benodol ynglŷn â'r awdurdodau hyn o ganlyniad i'r Bil hwn, neu pan fo Deddf Gymreig yn darparu nad yw swyddogaeth sy'n perthyn iddynt yn arferadwy bellach yng Nghymru neu o ran Cymru.

90. Mae cymal 112 yn darparu, pan ellir dehongli deddfwriaeth Gymreig yn y fath fodd fel ei bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu o fewn y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru i wneud (is-) ddeddfwriaeth, neu ei dehongli yn y fath fodd fel ei bod y tu allan i'r cymhwysedd neu'r pŵer hwnnw, mai'r cyntaf fydd yn drech. Mae hyn yn ailadrodd darpariaeth debyg a wneir ym mhob un o'r Deddfau sy'n sefydlu'r deddfwrfeydd datganoledig.

91. Mae cymalau 113 ac 114 yn ymwneud â deddfwriaeth yn y Gymraeg. Mae cymal 113 yn ailadrodd rhan o adran 156 o Ddeddf 2006 drwy ddarparu bod statws

cyfartal i destunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth Cymru. Darpariaeth newydd yw cymal 114, sy'n galluogi gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sy'n deddfu testun Cymraeg sy'n cyfateb i destun a ddeddfwyd yn Saesneg yn unig gan Senedd y DU, neu a wnaed yn Saesneg yn unig gan Weinidogion mewn is-ddeddfwriaeth. Byddai'r testun Cymraeg yn gyfartal o ran statws â'r testun Saesneg oni bai bod y testun yn cael ei ddiwygio yn Saesneg yn unig wedi hynny. Mae'r ddarpariaeth hon yn debygol o gael ei defnyddio o dan amgylchiadau pan fo Senedd y DU yn diwygio deddfwriaeth Gymreig ddwyieithog yn Saesneg yn unig.

92. Mae cymal 116 yn cydgrynhoi'r ddarpariaeth sy'n caniatáu i berthynas gyfreithiol godi rhwng y Goron yn hawl Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y DU a'r Goron yn hawl Gweinyddiaeth Cymru. Er enghraifft, caniateir trosglwyddo eiddo a rhwymedigaethau rhyngddynt a gallant hefyd, o dan amgylchiadau penodol, erlyn ei gilydd.

93. Mae cymal 117 yn cydgrynhoi ac yn datblygu amodau mewn perthynas â hawl i gael gwrandawiad, cymhwysiad, iawndal a therfynau amser ar gyfer dwyn achos mewn llys neu dribiwnlys, ar y sail bod gwneud deddfwriaeth, neu unrhyw weithred arall (neu yn wir fethiant i weithredu) gan aelod o Lywodraeth Cymru yn anghydnaws â hawliau dynol. Mewn perthynas â therfynau amser, mae'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r un yn adran 14 o Ddeddf yr Alban 2012 (a Deddf Achosion Hawliau'r Confensiwn (Diwygio) (Yr Alban) 2009 o'i blaen) a basiwyd mewn ymateb i achos *Somerville*. Yn yr achos hwnnw, penderfynodd Tŷ'r Arglwyddi nad oedd achosion yn ymwneud â thorri hawliau'r Confensiwn gan Weinidogion yr Alban o dan Ddeddf yr Alban 1998 yn ddarostyngedig i'r un terfyn amser statudol o ddeuddeg mis ag o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Diwygiwyd Deddf yr Alban 1998, felly, er mwyn darparu terfyn amser ar gyfer achosion sy'n cael eu dwyn yn erbyn Gweinidogion yr Alban. Er mwyn sicrhau eglurder, a chydraddoldeb â'r Alban, mae cymal 117 yn cyflwyno terfynau amser cyfatebol ar gyfer dwyn achosion hawliau dynol o dan y Ddeddf hon yn erbyn Gweinidogion Cymru neu aelod o Lywodraeth Cymru, pan honnir eu bod wedi gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â hawliau dynol.

94. Mae cymal 118 yn cydgrynhoi darpariaeth, a'i effaith yw pan fo unrhyw lys neu dribiwnlys yn penderfynu y byddai darpariaeth mewn deddfwriaeth Gymreig y tu allan i'r pwerau perthnasol, y caiff y llys neu'r tribiwnlys wneud gorchymyn sy'n cael gwared ar unrhyw effaith ôl-weithredol, neu gyfyngu arno, neu atal yr effaith (am gyfnod penodedig ac yn ddarostyngedig i amodau) er mwyn caniatáu i'r diffyg gael ei gywiro.

95. Mae cymalau 119 a 120 yn rhoi'r pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud unrhyw ddarpariaeth yr ystyrir ei bod yn briodol o ganlyniad i ddeddfwriaeth Senedd Cymru, neu ddeddfwriaeth y mae wedi craffu arni, ac yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i addasu deddfiadau cyfredol pan fo hynny'n briodol o ganlyniad i'r Bil hwn; a rhoddir pwerau addasu tebyg i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Deddfau Seneddol fel y bo'n briodol o ganlyniad i basio'r Bil hwn.

96. Mae cymalau 121 i 124 yn rhoi pwerau amrywiol i wneud gorchmynion i Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor. Yn rhinwedd cymal 121, caiff wneud unrhyw ddarpariaeth y mae'n ystyried ei bod yn briodol er mwyn galluogi neu hwyluso trosglwyddo swyddogaeth i Weinidogion Cymru. O dan gymal 122 caiff, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, gywiro deddfwriaeth ac arfer swyddogaethau nad ydynt, neu y gall nad oeddent, o fewn pwerau'r Senedd na Gweinidogion Cymru na'r Cwnsler Cyffredinol. Mae cymal 123 yn galluogi'r ailddosbarthu swyddogaethau y cytunwyd arno, o Weinidogion Cymru i Weinidogion y DU, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ac mae cymal 124 yn darparu ar gyfer yr ailddosbarthu cyfatebol o ran eiddo a rhwymedigaethau.

97. Mae cymal 126 yn darparu bod unrhyw bŵer yn y Ddeddf i wneud mathau penodol o is-ddeddfwriaeth (rheoliadau, Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor a chyfarwyddydau) i'w arfer drwy offeryn statudol. Mae hefyd yn egluro sut y caniateir defnyddio'r pwerau hynny.

98. Yn olaf, mae cymalau 127 i 133 yn seiliedig ar adrannau 117 i 123 o Ddeddf yr Alban 1998. Yn fras, mae'r darpariaethau hyn yn diwygio dehongliad deddfiadau cyn-gychwyn a dogfennau eraill er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod rhai o swyddogaethau Gweinidogion y Goron wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

## Darpariaethau Dod i Rym

99. Mae cymal 138 yn gwneud darpariaeth i ddarpariaethau'r Bil hwn, ac eithrio adrannau penodedig, ddod i rym ar y diwrnod a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy offeryn statudol. Caniateir pennu dyddiau gwahanol i adrannau gwahanol o'r Ddeddf ddod i rym.